# Cyngor Sir y Fflint

## ADDYSG AC IEUENCTID

# Strategaeth Hygyrchedd (ar gyfer ysgolion)

disability confident EMPLOYER

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

| | |
|---|---|
| Perchennog y polisi ar gyfer adolygu | Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid |
| Dyddiad ei roi ar Waith | 1 Ionawr 2018 |
| Dyddiad yr adolygiad diwethaf | |
| Dyddiad y diwygiad diwethaf | |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | 1 Ionawr 2021 |

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

## TUDALEN GYNNWYS

Rhagair y Prif Weithredwr

Gwybodaeth Gyffredinol

Strategaeth Hygyrchedd

Cyfrifoldebau ALl i osgoi gwahaniaethu yn erbyn plant gydag anabledd

Safonau ar gyfer Adeiladau Newydd ac Addasu

Proses ar gyfer nodi Gofynion Ychwanegol (Corfforol a/neu Synhwyraidd)

Ystyriaethau ar gyfer cynlluniau gwagio mewn argyfwng

Cyfrifoldeb Ysgolion

Polisïau ac Adroddiadau

Cyfathrebu

Y Cwricwlwm

Personél Enwebedig

Cynllun Gweithredu

Trefniadau Monitro

Cyfrifoldebau am Ariannu

## 1.0 **RHAGAIR Y PRIF WEITHREDWR**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i egwyddorion mynediad cyfartal ar gyfer yr holl wasanaethau ar gyfer yr holl bobl sy'n byw o fewn y gymuned. Mae'r hawliau hyn yn ymestyn i hygyrchedd y

DRAFT

gwasanaethau hynny ar gyfer pobl gydag anableddau: ymrwymiad a nodir drwy'r logo sy'n amlwg ar yr holl ohebiaeth swyddogol -

disability confident EMPLOYER | hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Felly rwy'n croesawu'r Strategaeth Hygyrchedd hon.  Mae'n disgrifio sut, dros amser, y bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn ceisio cyflawni hygyrchedd i'w adeiladau, lle bo'n ymarferol gwneud hynny, tra'n sicrhau bod mynediad lawn at:

- unrhyw wybodaeth a ddosbarthir gan yr holl ysgolion a gwasanaethau a
- cwricwlwm ysgol ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu.

Fy mwriad yw sicrhau bod y strategaeth yn hysbysu gwaith yr ALl yn y maes hanfodol hwn o wasanaeth dros y tair blynedd nesaf.  Pan gaiff ei weithredu'n llawn, bydd unrhyw un ag anabledd – plentyn neu oedolyn – sy'n defnyddio cyfleusterau'r ALl, yn gallu gwneud hynny ar sail sy'n gyfartal â'r holl ddefnyddwyr eraill.

Dylid darllen y strategaeth hon ochr yn ochr â "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion ar gyfer Disgyblion ag Anableddau - Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhif :15/2004".

Yn olaf, rwy'n croesawu unrhyw arsylwadau ar y Strategaeth hon.  Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau cysylltwch â mi yn y cyfeiriad canlynol

Claire Homard – Cyfarwyddwr Dros Dro Dysgu Gydol Oes
Neuadd y Sir, yr Wyddgrug



DRAFT

## 1. CYFLWYNIAD CYFFREDINOL

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym yn 2010. Teimlwyd yr effaith mewn sawl maes mewn ysgolion, cyflogi pobl gydag anableddau, darparu nwyddau a gwasanaethau, cyhoeddi (yn yr adroddiad blynyddol i Lywodraethwyr Ysgol) y trefniadau mynediad presennol ar gyfer disgyblion gydag anableddau, cludiant a chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn atal pob ysgol, gan gynnwys ysgolion nas cynhelir a sefydliadau Addysg Uwch / Bellach, rhag gwahaniaethu yn erbyn disgyblion gydag anableddau yn eu trefniadau derbyn a gwahardd. Bydd rheoliadau yn diffinio'r hyn a ganiateir ac nas caniateir, ond bydd gwahaniaethu'n digwydd os:

- Am reswm yn ymwneud ag anabledd – bod yr ysgol yn trin y disgybl yn llai ffafriol nag y mae'n trin, neu y byddai'n trin, eraill nad yw'r rheswm, neu na fyddai'r rheswm yn berthnasol iddynt.
- Nad yw'r ysgol yn arddangos sylw dyledus i anabledd y disgybl.
- Nad yw'r ysgol yn cyflawni addasiadau rhesymol.

Mae ALl Sir y Fflint wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r egwyddorion wedi'u nodi yn y Strategaeth Cynhwysiant. O fewn y strategaeth nodir ymrwymiad i'r egwyddorion canlynol

- Ethos cynhwysol, sy'n golygu bod pawb yn cael eu gwerthfawrogi
- Dangos cynhwysiant drwy gynyddu cyfranogiad i ddisgyblion mewn diwylliannau, cyfleoedd cwricwlaidd a chymunedau lleol ysgolion a'r gymuned ehangach
- Mae gan bawb yr hawl i gael gwasanaethau addysgol a phrofiadau o'r ansawdd uchaf
- Mae gan bob disgybl a'u rhieni'r hawl i gael eu trin gyda pharch a dylid eu hannog i wneud eu safbwyntiau'n hysbys, er mwyn gallu eu hystyried
- Bydd angen i ysgolion ail-archwilio eu diwylliannau, polisïau ac ymarferion i'w gwneud yn gwbl gynhwysol
- Bydd cynllunio strategol parhaus ym mhob sefydliad addysgol ac ar lefel disgyblion unigol
- Gwneud y gorau o ddysgu a chyfranogiad
- Bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn eu hysgolion lleol
- Systemau addysgol sydd wedi'u dylunio i ystyried yr amrywiaeth eang rhwng disgyblion.

DRAFT

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae'r ALl yn bwriadu datblygu dull strategol i gynllunio ar gyfer mwy o fynediad at ei ysgolion, at y cwricwlwm ac at wybodaeth. Mae'r strategaeth yn cysylltu â pholisïau eraill fel Cynllun Gwella'r Cyngor, y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a cham cynradd ac eilaidd y Cynlluniau Strategol. Mae hefyd gyda chysylltiadau agos ag ymarfer Gwasanaeth Cynhwysiant yr ALl a swyddogaethau allweddol.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint Gynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd. Cafodd hwn ei ysgrifennu ac roedd yn destun ymgynghoriad yn 2012. Rhaid i'r ysgolion sicrhau bod eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dangos sut y byddant yn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ategu at y Strategaeth Hygyrchedd hon. Mae'r cynllun yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo cydraddoldeb. Rhaid i ysgolion sicrhau bod y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn dangos sut y byddant hefyd yn hyrwyddo cydraddoldeb.

## 2. STRATEGAETH HYGYRCHEDD

O 2004, mae pob ALl yng Nghymru wedi gorfod cael Strategaeth Hygyrchedd yn ei lle i wella:

- amgylchedd ffisegol yr holl ysgolion
- mynediad at y cwricwlwm
- mynediad at wybodaeth.

Mae'r strategaeth ddiwygiedig hon yn disodli'r fersiwn a ddiweddarwyd yn 2011.

Mae dyletswydd debyg ar bob ysgol i ddarparu Cynllun Hygyrchedd. Dylai pob adroddiad blynyddol gan Lywodraethwyr Ysgol gynnwys gwybodaeth gyfredol am ddisgyblion gydag anableddau a chynllun hygyrchedd.

Bydd y Strategaeth Hygyrchedd newydd yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd o 2017 tan 2020, ac yn cael ei ddiwygio fel bo'r angen yn y dyfodol.  Mae'r cyfrifoldeb am hyn gyda Grŵp Llywio'r Ddeddf Cydraddoldeb (EASG). Mae hwn yn grŵp aml-wasanaeth sy'n goruchwylio ac yn monitro polisi ac ymarfer i ddisgyblion gydag anableddau.

DRAFT

Mae gwreiddiau'r strategaeth mewn ymwybyddiaeth bod ei weithrediad llwyddiannus yn dibynnu, i raddau helaeth iawn, ar newidiadau agwedd, canfyddiadol a diwylliannol. Disgwylir y bydd pob darparwr gwasanaeth a defnyddiwr yn cofleidio'r ethos hwn. Cydnabyddir y bydd angen adolygu a herio rhai agweddau a chanfyddiadau. Mae gan gorff llywodraethu pob ysgol gyfrifoldeb i sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi'n addas i fodloni anghenion eu disgyblion.

Bydd plant a phobl ifanc sy'n dod o fewn diffiniad meddygol o "anabledd" ag amrediad eang o anghenion a gofynion. Gall y rhain gynnwys amhariadau corfforol a all gyfyngu ar symudedd, nam synhwyraidd ar olwg neu glyw, anawsterau dysgu, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio (a Gorfywiogrwydd) (ADHD), Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD), cyflyrau iechyd meddwl, problemau iechyd fel epilepsi neu asthma, a chyflwr dirywiol cynyddol fel Ffibrosis Cystig. Ni ddylai disgyblion a phobl ifanc gydag anabledd gael eu hystyried yn awtomatig fel bod ag angen addysgol arbennig.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd yn y ffordd ganlynol:

*"Mae gan berson anabledd os yw ef neu hi gyda nam corfforol neu feddyliol, sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei g/allu i gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd".*

Mae angen darllen y diffiniad hwn ar y cyd â diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yng Nghod Ymarfer AAA Cymru 2002.

*"Mae gan blant anghenion addysgol arbennig (AAA) os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu eu bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant anhawster dysgu os oes ganddynt:*

*(a) llawer mwy o anhawster, sy'n golygu eu bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer*
*(b) anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn dalgylch yr ALl.*
*(c) o dan oedran ysgol gorfodol ac yn dod o fewn y diffiniad yn (a) neu (b) uchod, neu y byddent os na fyddai darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.*



DRAFT

*Mae darpariaeth Addysg Arbennig yn golygu:*

*(a) i blant dyflwydd a throsodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir yn gyffredinol i blant o'u hoedran nhw, neu sy'n wahanol fel arall o'r ddarpariaeth honno, mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALl, ar wahân i ysgolion arbennig yn yr ardal.*
*(b) i blant o dan ddwy oed, addysg neu ddarpariaeth o unrhyw fath."*

Gellir gweld nad yw'r ddau ddiffiniad bob amser yn gydnaws â'i gilydd, ac yn wir, nid yw amddiffyniad o dan un Ddeddf bob amser yn cynnwys amddiffyniad yn awtomatig o dan Ddeddf arall. Felly mae angen darllen y Strategaeth hon ar y cyd â'r dogfennau ALl canlynol.

- Fframwaith Polisi AAA
- Cynllun Cymorth Ymddygiad
- Y Strategaeth Cynhwysiant

## 3. CYFRIFOLDEBAU ALL I OSGOI GWAHANIAETHU YN ERBYN PLANT GYDAG ANABLEDD

Ers Medi 2002, mae wedi bod yn anghyfreithlon i ysgolion ac ALlau wahaniaethu yn erbyn disgyblion a phobl ifanc gydag anableddau, o ran trefniadau derbyniadau i ysgolion, a gwaharddiadau oddi wrthynt, ac wrth ddarparu gwasanaethau addysg a chysylltiedig. Mae yna dair prif ddyletswydd:

- Peidio â thrin disgyblion gydag anableddau'n llai ffafriol
- Gwneud addasiadau rhesymol i osgoi rhoi disgyblion gydag anableddau dan anfantais sylweddol
- Paratoi Strategaeth Hygyrchedd (ALl) a Chynllun Hygyrchedd (ysgolion) i gynyddu hygyrchedd ysgolion ar gyfer disgyblion gydag anableddau dros amser (dyma'r ddyletswydd "gynllunio").

Dylid nodi bod yr holl ddyletswyddau hyn yn wedi'u "rhagweld". Mae hyn yn golygu bod angen i ysgolion ystyried gofynion disgyblion cyfredol a disgyblion y dyfodol a phobl ifanc gydag anableddau, yn eu dyletswyddau wrth gynllunio am y dyfodol. Mae'r ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu'n cynnwys pob agwedd ar fywyd ysgol, yn cynnwys gweithgareddau allgwricwlar, ymweliadau addysgol a thripiau ysgol.

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn cyfeirio at amrediad llawn o bolisïau, gweithdrefnau a pholisïau yn yr ysgol.



DRAFT

Mae’n hanfodol bod yr ALl ac ysgolion yn cydnabod bod y ddyletswydd "addasiadau rhesymol" yn gyffredinol ac wedi'i rhagweld, yn hytrach nac unigol ac adweithiol. Wrth benderfynu a yw cam gweithredu’n “rhesymol”, gall ysgolion ystyried yr angen i gynnal safonau academaidd, adnoddau sydd ar gael, pa mor ymarferol ydyw i wneud addasiad penodol, iechyd a diogelwch disgyblion ac eraill gydag anableddau, a diddordebau eraill. Fodd bynnag, barn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw y dylai’r dyletswyddau cyfreithiol hyn lywio anghenion wedi’u rhagweld a chynllunio yn y dyfodol, lle mae’r ysgol eisoes wedi datblygu diwylliannau ac arferion cynhwysol.

<u>Meini prawf ar gyfer addasiadau rhesymol</u>

Nid yw’n bosibl cyrraedd meini prawf caled a chyflym ynghylch beth sy’n gyfystyr ag “addasiad rhesymol”. Mae amgylchiadau unigol y disgybl a’r ysgol yn golygu bod angen ychydig o farn broffesiynol bob amser i benderfynu ar beth sy’n “rhesymol”. Byddai’r materion sydd angen eu hystyried yn cynnwys:

- Cryfderau’r disgybl
- Iechyd y disgybl
- Costau’r addasiadau
- Ffactorau iechyd a diogelwch y disgybl a disgyblion eraill
- Natur y trefniadau amgen i’w gwneud.

Mae angen cydbwysedd rhwng buddion y disgybl a’r holl ffactorau eraill sy’n ymwneud ag effaith yr addasiad sy’n cael ei wneud.

Mae’r Strategaeth Hygyrchedd yn cael ei goruchwylio gan yr EASG. Mae’r grŵp llywio’n cynnwys y cynrychiolwyr canlynol:

- Swyddog Mynediad Anabledd (CSyFf)
- Adran Ymgynghoriad Eiddo a Dylunio (CSyFf)
- Therapyddion Galwedigaethol (BIPBC)
- Man, Cynllunio a Darpariaeth Ysgol (CSyFf)
- Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (CSyFf)
- Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch (CSyFf)

Lle nad yw ysgol yn gallu penderfynu ar beth sy’n “addasiad rhesymol” mewn achos lle mae gofyn am addasiad corfforol, gall y Pennaeth ofyn am atgyfeiriad drwy Nyrs neu Feddyg Ysgol i'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol (OTS) i asesu anghenion

DRAFT

disgybl. Bydd argymhellion gan OTS yn cael eu hanfon ymlaen at EASG. Bydd EASG yna'n cynnal unrhyw astudiaethau hyfywedd hanfodol. Dylid cyfeirio atgyfeiriadau at y Swyddog Mynediad Anabledd, Adran Ymgynghori Eiddo a Dylunio, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NB.

<u>Amcanion yr Awdurdod Lleol</u>

Bydd yr ALl felly angen cynllunio ymlaen llaw i gyflawni hygyrchedd i'w ysgolion, i bobl gydag anabledd. Bydd yn gwneud hynny drwy sicrhau

- Bod y Polisi Derbyniadau Ysgol i ddisgyblion gydag anabledd yr un fath â'r polisi derbyniadau i ddisgyblion heb anabledd
- Bydd pob adeilad newydd yn cael eu hadeiladu i safon sy'n eu gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr gydag anabledd
- Bydd adeiladau presennol yn hygyrch i ddisgyblion unigol gydag anabledd, os yw'n rhesymol gwneud hynny, cyn y cânt eu derbyn i ysgol newydd (cyn belled ag y rhoddir digon o rybudd i hyn fod yn realistig)
- Bydd disgyblion gydag anabledd yn cael yr offer addas wrth dderbyn tystiolaeth gan Ffisiotherapydd neu Therapydd Galwedigaethol cymwys, a bod ffurflen wedi'i llenwi ac wedi'i llofnodi gan y rheolwr gwasanaeth
- Y bydd disgyblion gydag anabledd yn cael cwricwlwm addas
- Bod disgyblion yn gallu cyfathrebu gydag eraill drwy ystyried yr argymhellion gan Wasanaeth Cefnogi Synhwyrau Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWSSS) a'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd (SALT) (GIG).

Bydd yr ALl yn parhau i weithio tuag at wneud adeiladau ysgol yn hygyrch.

## 4. SAFONAU AR GYFER ADEILADAU NEWYDD AC ADDASIADAU

Rhaid i adeiladau gydymffurfio â Dogfen Gymeradwy Rheoliadau Adeiladu Rhan M neu Safonau Prydeinig BS8300

Efallai y bydd angen cais Rheoliadau Adeiladu i'r ALl ar gyfer gwaith penodol.

Efallai y bydd angen cael caniatâd cynllunio. Ceir cymeradwyaeth landlordiaid gan ALl ar gyfer ysgolion sy’n ariannu cynlluniau hunan-gymorth.

Mae rhai ystyriaethau cyffredin i’w hystyried fel a ganlyn:

<u>Gofynion Cyffredin</u>

- Cyrraedd yr Ysgol
- Rampiau
- Mynd i mewn i’r Ysgol
- Drysau
- Allanfeydd Tân
- Lifftiau / lifftiau platfform cadair olwyn
- Neuadd
- Ystafell Fwyta / Ffreutur
- Ystafelloedd dosbarth
- Ystafelloedd cotiau / Ardaloedd Newid
- Toiledau Hygyrch
- Llyfrgell
- Neuadd Chwaraeon a Champfa
- Ystafell feddygol
- Coridorau
- Ystyriaethau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg
- Ystyriaethau nam ar y clyw.

<u>Cyfarpar Arbenigol i Ddisgyblion</u>

Yr ALl sy’n gyfrifol am brynu offer arbenigol sy’n hanfodol i osgoi gwahaniaethu yn erbyn anabledd person. Byddai’r rhain yn cynnwys:
- Fframiau sefyll
- Teclynnau codi
- Dyfeisiau codi gyda thraciau
- Seddi wedi’u haddasu
- Argymhellion ar gyfer offer arbenigol sy’n costio £100 neu fwy wedi’u gwneud gan OT, SALT.. Gwasanaeth Synhwyraidd, Ffisiotherapydd neu NEWSS
- Sawl darn llai o offer wedi’u prynu ar gyfer yr un plentyn ar yr un pryd, sy’n dod i gyfanswm dros £100 gyda’i gilydd
- Lle mae offer yn costio hyd at £100, cyfrifoldeb yr ysgol yw ei ariannu.

DRAFT

- Os oes angen offer Arbenigol, dylid cyflwyno cais i’r Rheolwr Cynhwysiant yn yr Adran Addysg ac Ieuenctid yng Nghyngor Sir y Fflint.

Tynnu / symud offer

- Os bydd offer wedi'i roi i ddisgybl a bod y disgybl yn trosglwyddo i ysgol arall, bydd yr ysgol sy'n ei dderbyn yn gyfrifol am drefnu ac ariannu'r trosglwyddiad priodol o'r offer hwnnw
- Os na fydd angen offer sydd wedi’i roi i ddisgybl mwyach, mae gofyn i’r ysgol roi gwybod i’r Swyddog Mynediad Anabledd ar 01352 702131.

## 5. PROSES AR GYFER NODI GOFYNION YCHWANEGOL (CORFFOROL A /NEU SYNHWYRAIDD)

Gweler Atodiad 2

## 6. YSTYRIAETHAU AR GYFER CYNLLUNIAU GWAGIO MEWN ARGYFWNG

Bydd astudiaethau dichonoldeb ar gyfer addasiadau corfforol yn ystyried addasrwydd y ffordd o fynd i mewn ac allan i’r rhai hynny gyda nam corfforol a/neu synhwyraidd, yn enwedig os bydd angen gwagio’r adeilad mewn argyfwng.

Lle mae’n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny, bydd addasiadau’n cynnwys ystyriaeth o’r gofod llawr gwaelod a’r adeiladwaith parhaol o rampiau a lifftiau anabl i alluogi trosglwyddiad rhwng lefelau.

Bydd unrhyw lifft i bobl anabl yn cael ei adeiladu’n addas ac yn cydymffurfio. Bydd yn disgyn un lefel o’r llawr uwch, gyda neu heb gymorth. Bydd hyn drwy rinwedd system trosfar pŵer amgen awtomatig di-dor, wedi’i gosod yn addas, pe bai amhariad oherwydd nam trydanol.

Bydd lifftiau grisiau platfform ond yn cael eu hystyried os yw grisiau’n ddigon llydan ac wedi’u hadeiladu i alluogi eu bod wedi’u gosod yn ddiogel, sy’n rhoi ffordd digon cyflym ac wedi’i rheoli o ddianc. Gall lifftiau grisiau platfform arwain at rwystro neu atal ffordd brydlon, ddi-rwystr o ddianc. Lle caiff ei hystyried yn ddichonadwy, rhaid gosod system drosfar pŵer amgen awtomatig hefyd fel yr uchod.

DRAFT

## 7. CYFRIFOLDEB YSGOLION

Rhaid i Benaethiaid ysgolion hefyd sicrhau bod Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP) yn cael ei ddatblygu ar gyfer bob disgybl gyda nam corfforol neu nam synhwyraidd, sy’n rhwystro eu gallu i adael adeilad heb gymorth.
Cyfeiriwch at y canllaw a'r ffurflen ar https://hwb.wales.gov.uk/ .

Rhaid i’r cynllun ystyried ffyrdd o adael pob ardal o'r adeiladau, ac i sicrhau bob amser bod llwybr dianc amgen yn cael ei nodi yn yr un modd (llwybrau cynradd ac eilaidd).

Wrth asesu opsiynau cynllun gadael mewn argyfwng unigol i ddatblygu PEEP, bydd yn hanfodol cynnwys mewnbwn gan Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Penaethiaid, rhieni a gofalwyr yn y lle cyntaf, fel y gellir casglu digon o wybodaeth feddygol, yn ogystal ag asesu cynllun presennol yr adeilad.

Dylid ystyried seddi gwagio fel ‘mesur wrth gefn’ e.e. os bydd lifft symudedd yn torri, yn hytrach na’r brif ffordd o drosglwyddo pobl o lawr neu lefel uwch.

Efallai na fydd rhai unigolion yn gallu trosglwyddo eu hunain i sedd wagio. Rhaid i unrhyw gefnogaeth gorfforol sy’n ofynnol fod yn unol â’r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Symud yn Gorfforol i sicrhau bod unigolion, yn cynnwys y rhai sy’n darparu unrhyw gefnogaeth, yn osgoi cael eu rhoi mewn perygl wrth ei rhoi (dulliau o drosglwyddo i osgoi cynnal pwysau ac ati).

Lle rhoddir seddi gwagio fel rhan o gynllun gwagio (mesur wrth gefn), rhaid i’r ysgol sicrhau bod nifer addas o staff yn cael eu dynodi a’u hyfforddi wrth weithredu seddi gwagio a throsglwyddo unigolion yn ddiogel.

Os oes angen mwy nag un PEEP (mwy nag un person angen cynllun unigol er mwyn ymadael yn ddiogel), rhaid iddynt gael eu hystyried gyda'i gilydd i sicrhau nad oes un cynllun yn effeithio'n andwyol ar un arall, a bod gan yr ysgol yr adnoddau gofynnol a staff hyfforddedig i reoli dull diogel a phrydlon o ddianc.

Nid yw’r Cynllun Hygyrchedd yn gorfod ymdrin â mynediad i’r ysgol ar gyfer staff anabl. Felly nid yw mynediad i ardaloedd staff, fel yr Ystafell

DRAFT

Staff, yn gorfod cael eu cynnwys. Os yw ysgol yn cyflogi aelod anabl o staff, gall y cynllun Mynediad i Waith, wedi'i redeg gan y Gwasanaeth Cyflogaeth, helpu i wneud y gweithle'n fwy hygyrch.

## 8. POLISÏAU AC ADRODDIADAU

Dylid adolygu pob polisi a gweithdrefn ysgol, a lle bo angen, eu haddasu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, y Ddeddf Cydraddoldeb, dyletswyddau Cydraddoldeb, Rheoliadau Tân ac ati.

Bydd Adroddiad blynyddol Llywodraethwyr yr ysgol i rieni yn rhoi sylw ar weithredu Cynllun Hygyrchedd yr Ysgol. Bydd yn dangos lle mae'r cynllun wedi'i leoli a'r fformatau y gellir eu cyflwyno.

## 9. CYFATHREBU

Bydd proses yn ei lle ym mhob ysgol a fydd yn galluogi'r disgybl gyda'r anableddau, a'u rheini, i ddatgelu nam(au)'r disgybl fel y gallant gael mynediad at y gefnogaeth addas sydd ar gael.

Wrth ddelio â phobl ag anableddau, bydd yr ALI, ar gais, yn rhoi gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau yn dibynnu ar anghenion defnyddiwr e.e.

- Testun Braille
- Testun ffont mawr
- Recordiadau tâp sain
- DVD's Iaith Arwyddion Prydain (BSL)
- Gwybodaeth ar lafar.

Mae'r ALI yn hyrwyddo'r defnydd o gwmni lleol i gael dogfennau wedi'u trosglwyddo i wahanol fformatau. Dylid cysylltu â Gwasanaethau Cymorth Gweinyddol ar 01352 702340.

Mae angen i holl staff yr ysgol fod yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu disgyblion gydag anableddau a sut i ymateb iddynt.

Mae cyfathrebu'n cynnwys yr holl wybodaeth a roddir i ddisgyblion yn ystod eu haddysg. Mae staff felly angen cael hyfforddiant i roi gwybodaeth mewn fformatau o'r fath neu i wybod ble i geisio cyngor.

DRAFT

## 10. Y CWRICWLWM

Ni ddylai'r cwricwlwm wahaniaethu yn erbyn disgyblion ag anableddau.

Dylai ysgolion feddu ar ddull sy'n cydymdeimlo wrth wneud amserlenni a lleoliad daearyddol pynciau, fel bod yr unigolyn hynny, er enghraifft gydag amhariad symudedd, mewn ardaloedd sy'n golygu llai o symudiad.

Dylai disgyblion ag anabledd gael mynediad cyfartal at addysg a gwasanaethau cysylltiedig fel teithiau ac ymweliadau ysgol, clybiau ar ôl ysgol a threfniadau arlwyo.

Dylai disgyblion gydag anabledd gael cefnogaeth TGCh, lle bo'n briodol, sy'n eu galluogi, neu'n eu cynorthwyo, i gael mynediad at y cwricwlwm.

Lle bo'n briodol, dylid addasu'r cwricwlwm i ddisgyblion gydag anableddau o ran mewnbwn, tasgau ac allbwn.

Mae esiamplau o addasiadau rhesymol i ddarpariaeth o'r cwricwlwm y gall yr ysgol eu gwneud yn cynnwys:

- Amserlennu ystafelloedd dosbarth sy'n hygyrch i ddisgyblion gydag amhariad symudedd
- Cynllunio i leoli cyfleusterau cyfan yr ysgol e.e. llyfrgell, ystafelloedd TGCh, mewn mannau hygyrch
- Darparu gweithgareddau sy'n cael eu gwahaniaethu a'u haddasu'n briodol i fodloni anghenion y disgybl.
- Addasu adnoddau'n fformat addas i anghenion y plentyn

## 11. PERSONÉL ENWEBEDIG

Bydd pob ysgol yn enwebu athro i fod yn gyfrifol am faterion anabledd. Dylai'r athro hwn fod yn uwch reolwr. Byddant yn parhau i gael y diweddaraf o ran materion anabledd, drwy sesiynau hyfforddi rheolaidd.

Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cynhwysiant yn cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol am faterion gwahaniaethu anabledd.

DRAFT

## 12. CYNLLUN GWEITHREDU

Mae angen i Gynllun Gweithredu Ieuenctid ac Addysg, a Chynlluniau Hygyrchedd yr ysgol, fod yn ddogfen tri cham sy'n nodi camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir, a rhaid sicrhau bod:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le. (ysgolion ac ALl)
- Cynlluniau Hygyrchedd (ysgolion) a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu monitro’n flynyddol (ysgolion ac ALl)
- Ysgolion yn adrodd i’w cyrff llywodraethu bob blwyddyn ar weithrediad eu Cynlluniau Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb Strategol
- Mae gwaith yn parhau i gael gwared ar rwystrau i fynediad disgyblion i ysgolion (ysgolion ac ALl)

## 13. TREFNIADAU MONITRO

Bydd Strategaeth Hygyrchedd a Chynlluniau Hygyrchedd Ysgolion a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn destun arolygiadau ESTYN. Gall Llywodraeth Cymru ymyrryd pan na fydd ALl neu ysgol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gynllunio, a gall gyfarwyddo'r ALl neu'r ysgol i wneud hynny.

## 14. CYFRIFOLDEBAU AM ARIANNU

Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/2004, "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anabledd" yn dangos ym mharagraff 6.1, y dylai’r ALl ariannu rhai eitemau i wneud ysgol yn fwy hygyrch i ddisgyblion anabl. Byddai’r rhain yn cynnwys gwaith cyfalaf,

*“fel ailadeiladu, gosod lifftiau, drysau electromagnetig, gwrthsain, toiledau hygyrch a darparu offer arbenigol, drytach a ariennir gan yr ALl, ar wahân i **ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol**, lle mae 85% o gostau o’r fath yn cael eu hariannu drwy grant gan y Cynulliad Cenedlaethol".*

Mae’n nodi ymhellach, ym mharagraff 6.3, bod

*“ysgolion a gynhelir angen edrych ar eu cyllidebau wedi’u dirprwyo i ariannu elfennau o’u cynlluniau mynediad, yn hytrach na gwaith cyfalaf”.*

DRAFT

Pan fydd ysgol yn rhestru elfennau yn ei Gynllun Hygyrchedd, byddai'n addas i'r ysgol geisio cynnwys unrhyw eitemau a fyddai'n gwella hygyrchedd ar gyfer disgyblion anabl, yn ei rhaglen waith ac adnewyddu rheolaidd. Bydd angen i sawl ysgol, er enghraifft, ystyried gwelliannau fel cyferbyniad lliw mewn ystafelloedd dosbarth neu osod tapiau lifer/gwthio i fasnau golchi. Gellir gwneud hyn dros amser ac yn ôl y gofyn, ac ni ddylai beri unrhyw gostau ychwanegol. Gallai eitemau eraill, fel cadeiriau gyda breichiau neu ardaloedd gwaith/byrddau ar uchder gwahanol, gael eu cynnwys yn y rownd nesaf o gyflenwadau. Byddai’r ysgol angen manylu, er enghraifft, sawl cadair gyda breichiau a fyddai’n ofynnol.

DRAFT

# 17. ATODIADAU

**Atodiad 1**

**Rhestr Termau**

SALT – Therapi Iaith a Lleferydd
EALS - Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol
EASG – Grŵp Llywio Deddf Cydraddoldeb
ESTYN - Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi yng Nghymru (HMCI).

**Terminoleg**

SEP - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cydlynydd ADY - Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
DC - Deddf Cydraddoldeb 2010

**Bydd y strategaeth hon ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Cysylltwch â Gwasanaethau Cymorth Gweinyddol**

DRAFT

**Atodiad 2**

## SAFONAU AR GYFER ADEILADAU NEWYDD AC ADDASIADAU

O ran dogfen a gymeradwywyd gan reoliadau Adeiladu Rhan M a/neu Ddogfen Safonau Prydeinig BS800

### Gofynion Cyffredin

#### Rampiau

- Ramp yn ofynnol, gyda graddiant sy'n uchafswm o 1mewn15, o leiaf 1500mm o led gyda chanllawiau cyferbyniad lliw a rheilen i afael ynddi
- Dylai rampiau gael arwyneb gwastad ar y pen, nad ydyw ddim llai na 1.2m sgwâr (glaniad canolraddol o 1.5m)
- Canllawiau i gael eu hychwanegu at ddwy ochr o'r ramp (ochr agored i gael ei llenwi)
- Grisiau i gael canllawiau ar y ddwy ochr
- Darparu palmant botymog ar ben ac ar waelod grisiau ymyl â chyferbyniad lliw ar risiau.

#### Drysau

- Drws i gael handlen dynnu diwbaidd ar uchder addas
- Handlen dynnu diwbaidd yn gyferbyniad lliw i'r drws
- Drysau allanol i gael agoriad clir dalen sengl 800mm (1m os ydyw'n adeilad newydd)
- Drysau i gael panel gweledd (500mm i 800mm a 1150mm i 1500mm)
- Rhaid cael gwared ar unrhyw ymyl ar y trothwy i sicrhau ei fod yn wastad
- Botymau agor drws i gael eu hamlygu
- Botymau agor drws i fod ar uchder addas rhwng 750 a 1000mm o uchder
- Mae drysau mewnol yn agoriad clir dalen sengl 750mm (neu 775mm os nad ydyw'n fynedfa syth)
- Drysau mewnol i fod yn lled o 800mm i 825mm mewn adeiladau newydd.
- Handlen lifer diwbaidd yn gyferbyniad lliw i'r drws
- Arwyddion wedi'u gosod ar y drws
- Sicrhewch fod arwyddion ar lefel y llygad (pob arwydd sydd i'w gosod rhwng 900m a 1.2m)
- Sicrhewch fod arwyddion yn cael eu gosod ar gefndir mat i osgoi llachareedd
- Sicrhewch fod y llythyren gyntaf ar yr arwydd yn llythyren fawr, gyda phob un sy'n dilyn yn llythrennau bach, a bod fersiwn ar gael mewn Braille
- Bydd gan ddrysau llithro handlen diwbaidd
- Dull hawdd o dynnu drws yn ôl wedi'i osod ar bob drws, yn cynnwys sgriniau (dim mwy nag 20 Newton).

#### Allanfeydd Tân

- Allanfa dân i fod yn agoriad clir dalen sengl 800mm.
- Mynediad gwastad o'r allanfa dân i'r man ymgynnull
- Mynediad ramp o'r allanfa dân i'r man ymgynnull

DRAFT

- Ramp allanfa dân i gael canllawiau cyferbyniad lliw ar y ddwy ochr
- Arwyddion i ddangos bod yr allanfa dân yn hygyrch gyda chadair olwyn
- Larwm dân sy'n fflachio gyda'r rhybudd sain presennol ledled yr ysgol.

**Ystyriaethau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg**

- Goleuadau i fod o ddisgleirdeb safonol (fel bod person yn gallu adnabod nodweddion yr wyneb yn glir)
- Cyferbyniad lliw yn cael ei sefydlu rhwng y llawr, waliau a'r nenfwd
- Switshis pylu i gael eu hychwanegu os oes angen
- Llenni neu fleindiau ar ffenestri
- Bleindiau sy'n atal llacharedd neu haen wedi'i gosod dros y ffenestr.

**Lifftiau / lifftiau platfform cadair olwyn**

- Lifft platfform i gadair olwyn yn cael ei ychwanegu lle bo angen
- Bwlch drws i fod yn agoriad clir o 800mm
- Rhaid gosod drych ar y wal gefn
- Canllaw wedi'i gosod ar un ochr neu wal gefn y lifft
- Botymau i'w gosod ar uchder o 900mm
- Botymau cyffyrddol a Braille i'w gosod
- Goleuadau yn llachar (gall unigolyn ddehongli nodweddion yr wyneb yn glir)
- Cyferbyniad lliw rhwng y llawr, y waliau a'r canllaw.
- Rhybudd sain a gweledol y tu mewn i'r lifft.
- Dangosydd llawr gweledol ar y wal gyferbyn pan fydd y drws wedi'i agor.
- Glaniad clir o 1.5m o flaen y lifft
- Botwm larwm gyda chyferbyniad lliw.
- Gosod lifft (i gydymffurfio â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu).

**Cyrraedd yr Ysgol**

- Mynediad giât yn agoriad clir 1m i ganiatáu mynediad i bramiau a chadeiriau olwyn
- Giât i gael cyferbyniad lliw oddi wrth y wal
- Palmentydd wedi'u gostwng gyda phwyntiau croesi cyffyrddol pothell i giât yr ysgol
- Darperir gofod parcio i ddeiliaid bathodyn glas, sy'n agos at y brif fynedfa (i gydymffurfio â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu).
- Palmant llinellog wedi'i ostwng, i gael mynediad o'r maes parcio i'r ysgol
- Llwybr cerdded i'r brif fynedfa (o leiaf 1.5m o led, llai na 1.8m i gael mannau i fynd heibio)
- Arwyddion gyda chyfarwyddiadau addas i'r Brif Fynedfa.

**Mynd i mewn i'r Ysgol**

- Intercom neu gloch mynediad i'w hamlygu
- Intercom a/neu gloch i fod ar uchder addas rhwng 750mm a 1200mm o uchder
- Mat tywydd i fod yn gyfwyneb â'r llawr

DRAFT

- Desg y dderbynfa i gael darn is ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, dim uwch na 760mm, gyda lle i'r pen-glin yn 740mm, yn ddyfnder o 500mm ac yn 1.5m o led
- Gwydr y dderbynfa i fod ag ymylon iddo
- Arwyddion i gael eu hychwanegu at ddesg y dderbynfa, mewn fformatau hygyrch, yn cynnwys Braille
- Sicrhewch fod yr arwyddion ar lefel y llygad
- Dolen sain bwrdd gwaith i gael ei gosod yn nesg y dderbynfa
- Man aros i gael cadeiriau uwch gyda breichiau
- Derbynfa a man aros i gael cyferbyniad lliw
- Gofod i'w ddyrannu yn y man aros ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn
- Arwyddion cyfeiriad o gwmpas yr adeilad
- Cyferbyniad lliw yn ofynnol o gwmpas ffenestr fach y dderbynfa a'r man aros.

**<u>Neuadd</u>**

- Dolen sain wedi'i gosod o gwmpas y neuadd
- Cadeiriau gyda breichiau wedi'u darparu.

**<u>Ystafell Fwyta / Ffreutur</u>**

- Byrddau a chadeiriau y gellir eu symud (1 neu 2 fwrdd)
- Cyflenwad o gadeiriau gyda breichiau
- Cownter ar uchder addas (850mm)
- Dolen sain i'w hychwanegu o gwmpas y cownter neu'r ffenestr gweini bwyd.
- Digon o ofod rhwng y rhwystr a'r cownter i ganiatáu'r gadair olwyn i fynd drwy ardal y ffreutur (900mm).
- Rhywfaint o ymyl y cownter i fod yn grwn ac wedi'i amlygu mewn melyn neu liw addas arall
- Bwydlenni i fod ar gael mewn fformatau hygyrch.

**<u>Ystafelloedd dosbarth</u>**

- Socedi a switshis i fod ar uchder hygyrch (900mm – 1.2m)
- Cadeiriau a desgiau y gellir eu symud
- Desgiau sy'n codi a chwympo gyda'r offer yn amgaeedig (lle bo angen)
- Cadeiriau gyda breichiau (lle bo angen)
- Stolion gyda chefnau (lle bo angen)
- Stolion gyda breichiau (lle bo angen)
- Stolion gyda chefnau a breichiau
- Llawr â charped sydd ddim yn beil dwfn
- Dolen sain i'w gosod o gwmpas yr ystafell ddosbarth (lle bo angen)
- Un uned sinc gyda thapiau lifer
- Mynediad i ddisgyblion anabl at offer codi a chwympo arbenigol e.e. poptai
- Dylid gosod biniau sbwriel lle maent yn llai o rwystr, a dylid eu marcio'n glir.

**<u>Toiledau Arferol</u>**

- Digon o ofod rhwng y ddau ddrws mynediad sy'n arwain at ardal y toiledau

DRAFT

- Arwyddion wedi'u hychwanegu at giwbicl sy'n gallu dal defnyddiwr anabl sy'n gallu cerdded
- Ciwbicl toiled i rywun anabl sy'n gallu cerdded, i gael handlen siâp sbatwla i dynnu tshaen
- Ciwbicl toiled i rywun anabl sy'n gallu cerdded i gael rheiliau gafael ar ddwy ochr o'r toiled ar uchder o 800mm mewn croeslin
- Un basn i olchi dwylo i fod â thapiau liferi.
- Sychwr dwylo a dosbarthwr papurau sychu dwylo i fod ar uchder addas o 800mm - 1000mm i'r rhai ag amhariad ar eu symudedd
- Sicrhewch nad oes unrhyw offer neu gyflenwadau'n cael eu storio yn y toiledau
- Drws ciwbicl i unigolyn anabl sy'n gallu cerdded i agor tuag allan.

**<u>Ystafelloedd cotiau / Ardaloedd Newid</u>**

- Ardal o'r pegiau cotiau yn is (1050mm)
- Yr holl begiau cotiau yn cyferbynnu o ran lliwiau
- Symudedd hawdd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Arwydd yn dangos yr allanfa
- Mynediad gwastad i'r ardal gawodydd
- O leiaf un pen cawod y gellir ei symud ym mhob ardal gymunedol neu uned
- O leiaf un sedd gawod mewn ardal gymunedol neu uned, i fod yn sefydlog neu'n un y gellir ei symud (sedd sefydlog sy'n cau ei hun ar 450mm)
- Llawr nad ydyw'n llithrig i gael ei ychwanegu at yr ardal newid
- Rheiliau gafael i gael eu hychwanegu at y gawod gymunedol neu'r uned, uchder safonol ar gyfer rheiliau gafael sefydlog yn y wal a rheilen ostyngol ar 680mm.

**<u>Toiledau Hygyrch</u>**

- Bwlch drws sy'n fynediad i fod yn agoriad clir o 925mm
- Y drws i agor tuag allan
- Rheilen dynnu i'w gosod ar du mewn i'r drws ar uchder addas
- Dylai'r ciwbicl fod yn ddigon mawr i ddal toiled, mainc newid ac uned sinc ychwanegol (bydd fwy na thebyg yn gorfod bod yn fwy na'r 2.2m x 1.5m safonol)
- Switsh golau i fod ar uchder addas ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn (900m – 1.2m)
- Toiled wedi'i godi
- Rheilen ostyngol wedi'i chynnwys (lliw glas) 680mm i ochr agored y toiled
- Rheilen afael i'r wal ochr wedi'i chynnwys (lliw glas) ar 680mm
- Rheilen afael yn sownd i'r wal gefn wedi'i chynnwys (lliw glas) 800mm
- Handlen siâp sbatwla i dynnu tshaen
- Cortyn i'w dynnu mewn argyfwng
- Llawr nad oes modd llithro arno
- Tapiau lifer ar y basn golchi dwylo  Mynediad ochrol i'r toiled
- Mynediad tu blaen i'r toiled
- Mynediad lletraws i'r toiled yn bosibl
- Sychwr dwylo a dosbarthydd papurau sychu dwylo ar uchder addas (900mm – 1.2m)

DRAFT

- Modd cyrraedd y basn golchi dwylo o'r toiled
- Arwydd ar y drws yn dangos toiled i unigolion anabl
- Cyfleuster unrhyw
- Drych ar uchder derbyniol, dim is na 600mm
- Bachyn cotiau ar uchder derbyniol (1050mm)
- Wedi cwblhau gofynion Rhan M y toiled hygyrch newydd, a chortyn i'w dynnu mewn argyfwng yn elfen safonol (Pecyn Dogfen M gyda rheiliau gafael glas a sedd toiled)
- Sicrhewch nad oes unrhyw offer neu gyflenwadau'n cael eu storio yn y toiled
- Dylid gosod biniau sbwriel lle maent yn llai o rwystr, a dylid eu marcio'n glir.
- Trosglwyddiad amgen â dwylo os darperir mwy nag un cyfleuster.

**<u>Llyfrgell</u>**

- Uchder y cownter yn dderbyniol, gydag ardal is (760mm)
- Dolen sain bwrdd gwaith ar y cownter  Cadeiriau gyda breichiau ar gael
- Llawr â charped sydd ddim yn beil dwfn.

**<u>Neuadd Chwaraeon a Champfa</u>**

- Dolen sain wedi'i gosod.

**<u>Ystafell Staff</u>**

- Cadeiriau uwch gyda breichiau wedi'u darparu
- Dylai uchder cownter yr wyneb gweithio a'r sinc fod yn uchder o 850mm
- Tapiau lifer ar yr uned sinc
- Detholiad o begiau cotiau i fod yn is (dim uwch na 760mm)
- Pob peg cotiau i fod â chyferbyniad lliw

**<u>Coridorau</u>**

- Arwyddion yn rhoi cyfeiriadau o amgylch yr ysgol
- Coridor heb unrhyw rwystrau
- Dylid gosod biniau sbwriel lle maent yn llai o rwystr, a dylid eu marcio'n glir.

**<u>Swyddfa'r Pennaeth / Swyddfa Gyffredinol / Swyddfa'r Ysgrifennydd</u>**

- Llawr â charped sydd ddim yn beil dwfn
- Cadeiriau uwch gyda breichiau i gael eu hychwanegu
- System isgoch i gael ei gosod i gynorthwyo pobl gyda theclynnau clywCyfathrebu ar gyfer pobl â nam ar eu clyw.

**<u>Ystafell feddygol</u>**

- Gwely addasadwy
- Sinc gyda thapiau lifer
- Cadair uwch gyda breichiau
- Cortyn i'w dynnu mewn argyfwng wrth ymyl y gwely
- Gorchudd llawr gwrth-ddŵr
- Ystafell archwilio/feddygol wedi'i haddasu a gydag offer addas
- Ystafell breifat gydag offer addas ar gyfer golchi/cael cawod
- Dylid darparu cyfleuster storio ar gyfer eitemau personol a meddygol.

DRAFT

**Atodiad 3**

## SUT I DDATBLYGU CYNLLUN HYGYRCHEDD YSGOL

Mae’r camau isod yn arwain ysgolion i ddatblygu cynlluniau hygyrchedd sy’n ymateb i anghenion yr ysgol a’i disgyblion neu ddarpar ddisgyblion.

### Sefydlu grŵp cynllunio

Dylai’r ysgol sefydlu grŵp cynllunio i arwain y broses. Nid oes angen i hwn fod yn grŵp mawr, ond dylai allu adlewyrchu pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Gallai gweithgor gynnwys y llywodraethwr gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer AAA, rhiant disgybl anabl, cynrychiolydd o sefydliad anabledd lleol a’r Pennaeth.

Dylai’r grŵp cynllunio ddefnyddio’r arbenigedd sydd ar gael wrth ddatblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau. Mae'n debyg y bydd gan ddisgyblion ag anableddau, eu rhieni, athrawon arbenigol a sefydliadau gwirfoddol ac anableddau lleol brofiad o nodi rhwystrau o ran mynediad a gallant gynorthwyo'r grŵp cynllunio i nodi arferion a threfniadau sy'n gweithredu fel rhwystr rhag derbyn mynediad a galluogi plant gydag anableddau. Mae’r ALlau hefyd yn debygol o allu darparu cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol.

### Archwiliad mynediad ac adolygu gweithgareddau cyfredol

Dylai ysgol asesu hygyrchedd cyfredol a nodi rhwystrau i fynediad neu gynhwysiant. Dylai ysgol adolygu sut y gallai’r trefniadau presennol atal neu amharu ar ddisgyblion gydag anableddau rhag derbyn addysg a phob agwedd arall o fywyd ysgol. Dylai adolygiad mynediad ymdrin â’r amgylchedd corfforol, darparu cymorth clyw a gwasanaethau, arferion addysgu a dysgu, y cwricwlwm, hyfforddiant staff; diwylliant ac ethos yr ysgol, a darparu gwybodaeth ysgrifenedig.

Sefydlu Grŵp Cynllunio Hygyrchedd

- Asesu'r hygyrchedd o fewn amgylchedd yr ysgol
- Nodi rhwystrau i fynediad
- Datblygu cynllun tymor byr, canolig a hir i roi sylw i rwystrau
- Cwblhau a chyhoeddi’r cynllun
- Ymgynghori ar y cynllun
- Gosod nodau a thargedau
- Dyfeisio camau gweithredu
- Gweithredu
- Adolygu bob blwyddyn

Dylai ysgolion ystyried yr holl wybodaeth bresennol berthnasol am hygyrchedd yr ysgol ac anghenion yn y dyfodol. Dylai’r ALl gael gwybodaeth am hygyrchedd corfforol ei ysgolion. Gall ALlau hefyd roi gwybodaeth am ragweld anghenion y dyfodol. Dylai data ar boblogaeth disgyblion ysgolion

cyfredol alluogi'r ysgol i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion gydag anableddau sydd eisoes yn mynd i'r ysgol. Er enghraifft, gall ysgol sy'n gwybod am ddisgybl gydag anableddau mewn dosbarth derbyn drefnu i hyfforddi staff penodol i fodloni anghenion y plentyn yn hwyrach ymlaen yn yr ysgol.

Mae Atodiad 4 yn darparu canllawiau ar ymgymryd ag archwiliad mynediad ac yn cynnig rhestr wirio er mwyn nodi rhwystrau corfforol a rhwystrau i'r cwricwlwm. Mae'r Mynegai Cynhwysiant yn rhoi arweiniad defnyddiol ar nodi rhwystrau i fynediad. Mae Bwletin Adeiladu 91: Mynediad ar gyfer Pobl Anabl i Adeiladau Ysgol a Bwletin Adeiladu 94: Dyluniad Ysgol Cynhwysol, a gyhoeddwyd gan AdAS, yn darparu canllawiau ar gynnal archwiliadau hygyrchedd mewn ysgolion a gwneud ysgolion yn hygyrch.

### Dyfeisio camau i gael gwared ar rwystrau

Ar ôl nodi rhwystrau i fynediad ar gyfer disgyblion ag anableddau, mae angen i ysgolion ddylunio camau i waredu'r rhwystrau hynny. Dylai'r ysgolion restru'r holl addasiadau gofynnol (gan gynnwys amcanbris realistig o'r costau). Efallai y gellir eu rhannu fesul categori megis hyfforddiant staff, arferion addysgu a dysgu, adnewyddu a chynnal a chadw (e.e. defnydd o liw wrth ailaddurno a disodli gorchudd llawr neu ddodrefn), mân wariant cyfalaf a gwariant cyfalaf mawr. Dylai'r ysgolion lunio blaenoriaethau byrdymor, tymor canolig a hirdymor a dyfeisio strategaethau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn gyda threfniadau gweithredu clir a therfynau amser ar gyfer y gwaith. Pan fo'r blaenoriaethau yn cynnwys gwaith cyfalaf, mae angen rhoi gwybod i'r ALl er mwyn iddynt allu eu hystyried yn Strategaeth Hygyrchedd yr awdurdod a'i gynlluniau ar gyfer gwaith cyfalaf.

Mae angen i ysgolion gael adnoddau digonol ar gyfer eu cynlluniau hygyrchedd. Mae hyn yn golygu bod y costau o weithredu'r cynllun wedi'u hymgorffori mewn ymrwymiadau cyllidebol presennol ac yn y dyfodol. Dylai ysgolion a gynhelir ymgysylltu â'u ALlau am adnoddau i ariannu prosiectau cyfalaf.

### Gosod nodau a thargedau

Dylai nodau a thargedau fod yn ddigon penodol i'w galluogi i gael eu mesur (e.e. yr holl staff i dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd o fewn dwy flynedd; un labordy gwyddoniaeth, ystafell TGCh, ystafell gelf a stiwdio drama yn hygyrch i gadeiriau olwyn o fewn tair blynedd). Dylent gynnwys amserlenni a strategaethau gwerthuso i alluogi'r ysgol feirniadu pa mor effeithiol oedd y cynlluniau.

Gallai strategaeth fyrdymor gynnwys gweithio o fewn clwstwr lleol o ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig i rannu arferion da o ran gwahaniaethu'r cwricwlwm. Gallai strategaeth tymor canolig gynnwys sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb o fewn dwy flynedd gyda rhaglen gyflwyno wedi'i sefydlu ar gyfer staff newydd. Gallai blaenoriaeth hir dymor

gynnwys cynllunio i sicrhau bod ardaloedd cyffredin yr ysgol a dosbarthiadau penodol yn hygyrch.

**Ymgynghori ar y cynllun**

Bydd cynllun ond yn debygol o lwyddo os yw'r rhai sy'n gyfrifol am ei weithredu'n derbyn perchnogaeth amdano. Dylai ysgolion felly ymgynghori â'u holl staff. Dylent hefyd sicrhau bod gan yr holl rai sydd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r cynllun y cyfle olaf i gyflwyno sylwadau cyn ei gymeradwyo. Efallai bydd yr ysgol yn dymuno ymgynghori yn ehangach gyda rhieni, disgyblion a chyrff eraill. Mae'n rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y corff sy'n gyfrifol yn gyfreithiol amdano – y corff llywodraethu yn y mwyafrif o achosion.

**Cadarnhau a chyhoeddi'r cynllun**

Dylai ysgolion ystyried ymatebion yr ymgynghoriad cyn cwblhau eu cynlluniau. Mae cyhoeddi'r cynllun yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berchnogaeth ac yn cyfrannu at lwyddiant y cynllun ymysg staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni.

Mae gan ysgolion a gynhelir ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am eu cynlluniau hygyrchedd yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni. Gallai hyn fod yn grynodeb o'r cynllun hygyrchedd llawn, gan ei gwneud yn glir lle gellir cael copïau o'r cynllun llawn. Mae'n ofynnol i ysgolion sicrhau bod copi o'u cynllun hygyrchedd ar gael i unrhyw un ei archwilio os ydynt yn gofyn am gael ei weld. Mae'n arfer da i bob ysgol wneud eu cynlluniau ar gael ar gais. Efallai y bydd gofyn i ysgolion ddarparu eu strategaethau mewn fformatau amgen, e.e. braille, tâp sain, print bras.

**Gweithredu**

Pan fydd ysgol wedi cynhyrchu cynllun hygyrchedd, mae gan yr ysgol ddyletswydd statudol i weithredu'r cynllun a dyrannu adnoddau digonol iddo.

**Adolygu'r cynllun**

Mae angen gwerthuso er mwyn penderfynu a yw'r nodau yn cael eu cyflawni ac a yw'r cynllun gweithredu yn cynhyrchu gwerth am arian. Mae'n ofynnol i ysgolion barhau i adolygu'r cynllun hygyrchedd a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Dylid datblygu trefniadau gwerthuso mewn cysylltiad â nodau, targedau ac amserlenni a nodwyd yn y cynllun.

Yn ogystal â bodloni nodau a thargedau, efallai y gellir dangos llwyddiant cynllun hygyrchedd drwy:

- newidiadau gweladwy mewn hyder staff wrth addysgu a chefnogi disgyblion gydag anabledd gydag ystod o anghenion
- tystiolaeth o fwy o gyfranogiad gan ddisgyblion gydag anabledd ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cyfranogiad mewn clybiau ar ôl ysgol, hamdden, gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol ac ar deithiau ysgol);

DRAFT

- mwy o foddhad gan ddisgyblion ag anabledd a’u rhieni, gyda’r ddarpariaeth wedi’i gwneud ar eu cyfer a’u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol;
- archwiliadau wedi’u cynnal ar brif feysydd y cwricwlwm;
- cynlluniau cynyddol wedi’u trefnu ar gyfer amgylchedd adeileddol yr ysgol; a
- gwybodaeth ar gael i ddisgyblion mewn amrywiaeth o fformatau.

**Sicrhau dyfodol y cynllun hygyrchedd**

Bydd ymgorffori cynllunio hygyrchedd yn y polisïau ehangach yn sicrhau bod ymrwymiad i’r cynllun yn ymestyn y tu hwnt i’r grŵp cynllunio ac yn ennyn hyder bod yr ymrwymiad yn un gwirioneddol.

Yn y tymor byr, gall y cynllun hygyrchedd fod yn elfen ar wahân o gynllun datblygu’r ysgol.  Fodd bynnag, dros amser, dylai’r cynllun fod yn elfen hanfodol o gynllunio ar gyfer y dyfodol – yn llai o strategaeth annibynnol ac yn fwy o elfen sy’n rhan o holl gynlluniau a pholisiau’r ysgol, gan gynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â rheoli eiddo, y cwricwlwm, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cefnogi a hyfforddiant staff.

## Cyfeiriad at Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/2004

DRAFT

Atodiad 4

## ARCHWILIAD MYNEDIAD AR GYFER YSGOLION

**Rhestr wirio i nodi rhwystrau i fynediad**

Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys tair adran. Yn gyntaf, gofynnir i chi ystyried a yw amgylchedd yr ysgol yr ydych yn gweithio ynddi wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai gydag AAA ac /neu anabledd. Dylid defnyddio'r ail a'r drydedd rhan i nodi sut mae'r ysgol yn cyflwyno'r cwricwlwm ac yn darparu deunyddiau ysgrifenedig mewn fformatau amgen ac i ddarparu darlun cliriach o'r rhwystrau i fynediad sy'n bodoli yn niwylliant yr ysgol. Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn.

**Adran 1**

| **Cwestiwn** | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| A yw maint a chynllun yr ardaloedd; yn cynnwys pob cyfleuster academaidd, chwaraeon, chwarae, cymdeithasol; ystafelloedd dosbarth, y neuadd, ffreutur, llyfrgell, campfa a chyfleusterau chwarae awyr agored, meysydd chwarae ac ystafelloedd cyffredin yn caniatáu mynediad i bob disgybl? | | |
| A yw disgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu symud o amgylch yr ysgol heb brofi rhwystrau i fynediad, fel y rhai hynny a achosir gan fylchau drysau, grisiau, cyfleusterau toiledau a chawodydd? | | |
| A oes llwybrau teithio o amgylch safle'r ysgol a'r trefniadau parcio yn ddiogel, llwybrau'n rhesymegol ac wedi'u harwyddo? | | |
| A oes systemau ar gyfer argyfwng a gwagio wedi'u sefydlu i hysbysu'r HOLL ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion gydag AAA ac anableddau; yn cynnwys larymau gyda chydrannau gweledol a sain? | | |
| A yw arweiniad nad ydynt yn rhai gweledol, yn cael eu defnyddio i gynorthwyo pobl i ddefnyddio lifftiau gyda botymau cyffyrddol? | | |
| A ellir ystyried unrhyw ran o'r addurniadau fel rhai sy'n ddryslyd i ddisgyblion anabl gyda nam ar eu golwg, awtistiaeth neu epilepsi? | | |
| A yw ardaloedd y dylai disgyblion gael mynediad atynt â digon o olau? A yw ardaloedd storio'n atal disgyblion rhag cael mynediad at gymhorthion ac offer? | | |
| A gymerir camau i atal gwahardd pobl gydag anableddau sy'n effeithio ar eu clyw neu eu golwg rhag mynychu digwyddiadau a drefnwyd? E.e. ystyried acwstig ystafell, offer swnllyd a chyflwyno deunydd. A yw dodrefn ac offer yn cael ei ddewis, ei addasu a'i roi mewn lleoliad priodol? | | |
| A oes modd ystyried unrhyw arwyddion yn ddryslyd neu'n annigonol? | | |

**Adran 2**

| Cwestiwn | ✓ | ✗ |
|---|---|---|

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi'n sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr dysgu yn derbyn yr hyfforddiant priodol i addysgu a chefnogi disgyblion anabl? | | |
| A ydych yn gwneud y defnydd gorau o gymhorthwyr addysgu? | | |
| A yw eich ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu yn y ffordd orau bosibl i ddisgyblion anabl? | | |
| A yw gwersi'n ymateb i amrywiaeth disgyblion? | | |
| A yw gwersi'n cynnwys gwaith i'w wneud gan unigolion, parau, grwpiau a'r dosbarth cyfan? | | |
| A yw'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama a chorfforol? | | |
| A oes amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys trafodaeth, cyflwyniad ar lafar, ysgrifennu, darlunio, datrys problemau, defnyddio'r llyfrgell, deunyddiau clywedol, tasgau ymarferol a thechnoleg gwybodaeth? | | |
| Ydi'r staff yn cydnabod a chaniatáu ar gyfer ymdrech feddyliol a ddefnyddir gan rai disgyblion anabl er enghraifft darllen gwefusau? | | |
| A yw'r staff yn cydnabod a chaniatáu amser ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl i ddefnyddio offer mewn gwaith ymarferol? | | |
| A yw staff yn darparu ffyrdd amgen o roi mynediad i brofiad neu ddealltwriaeth ar gyfer disgyblion anabl nad ydynt yn gallu ymgysylltu mewn gweithgareddau penodol, er enghraifft rhai ffurfiau o ymarfer corff mewn addysg gorfforol? | | |
| A ydych yn rhoi mynediad i dechnoleg cyfrifiaduron sy'n addas ar gyfer disgyblion gydag anableddau? | | |
| A yw teithiau ysgol, yn cynnwys teithiau tramor, yn hygyrch i bob disgybl waeth beth yw eu cyrhaeddiad neu nam? | | |
| A yw staff, llywodraethwyr a disgyblion yn cael hyfforddiant ac addysg mewn materion cydraddoldeb i bobl anabl? | | |
| A yw staff yn ceisio cael gwared ar rwystrau i ddysgu a chyfranogi? | | |
| A oes disgwyliadau uchel o bob disgybl? | | |
| A yw pawb yn cael eu croesawu? | | |
| A yw disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal? | | |
| A yw staff, llywodraethwyr a disgyblion yn rhannu athroniaeth o gynhwysiant? | | |

DRAFT

**Adran 3**

| **Cwestiwn** | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Ydych chi'n darparu gwybodaeth mewn print bras, ar dâp sain neu mewn Braille ar gyfer disgyblion a darpar ddisgyblion sydd ag anhawster gyda fformatau safonol gwybodaeth wedi'i argraffu? | | |
| A oes gennych y cyfleusterau i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn amrywiaeth o feintiau? | | |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych yn defnyddio canllawiau RNIB wrth gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hygyrch? | | |
| Ydych chi'n sicrhau bod gwybodaeth a gyflwynir i grwpiau yn gyfeillgar i ddefnyddwyr anabl, sy'n effeithio ar eu golwg e.e. drwy ddarllen cynnwys uwchdaflunydd yn uchel a disgrifio diagramau? | | |
| Ydych chi'n sicrhau bod staff yn gyfarwydd â thechnoleg ac arferion a ddatblygwyd i gynorthwyo pobl gydag anableddau? | | |
| A yw'r 'corff cyfrifol' yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | | |
| A yw'r ysgol yn gwneud cynlluniau cyffredinol i ystyried y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol? | | |
| A oes gan yr ysgol weithdrefn cwynion mewnol ddigonol? | | |

DRAFT